Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Egwyddorion "Heb Hebrwng" ar gyfer:
# Plant, Oedolion mewn Perygl ac Oedolion y gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth

**Cadarnhawyd gan y Bwrdd**

**Dyddiad Adolygu**

**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Nodau | 4 |
| Diffiniad | 5 |
| Diogelu | 5 |
| Atal | 5 |
| Cyfrifoldebau Proffesiynol | 5 |
| Ffactorau sy'n cyfrannu at golli apwyntiadau | 5 |
| Datgysyllu | 6 |
| Dangosyddion a Phryderon Posibl | 6 |
| Pan fydd plant "Heb eu Hebrwng" / Ymweliadau Cartref Dim Mynediad | 6 |
| Plant sy'n Hysbys i Wasanaethau Plant Statudol neu a Ystyrir yn Agored i Niwed | 7 |
| Pan fydd Oedolyn "Heb ei Hebrwng" / Ymweliadau Cartref Dim Mynediad | 8 |
| Diogelu Pobl Feichiog nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau. | 9 |
| Casgliad | 10 |
| Adnoddau | 11 |


**Gyda diolch i Fwrdd Diogelu Gwent**

## Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod yn **rhaid** i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae lles yn cynnwys amddiffyniad rhag cam-drin ac esgeulustod.

Mae Erthygl 25 o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn nodi "Bod gan bawb yr hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer eu hiechyd a'u lles eu hunain a'u teulu, gan gynnwys bwyd, dillad, cartref a gofal meddygol a gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol. Mae gan Blant a Phobl Ifanc hawl i ofal iechyd (Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989) ac mae hyn yn cynnwys y datganiad 'Bydd partïon yn ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd o'r fath'.

Yn hanesyddol, "Heb Fynychu" yw'r term a ddefnyddiwyd, yn enwedig o fewn gwasanaethau Iechyd, lle nad yw plant neu oedolion yn cael mynediad at wasanaethau neu'n mynychu apwyntiadau. Ar gyfer llawer o wasanaethau, oherwydd pwysau ar restrau aros, byddai colli nifer o apwyntiadau'n arwain at y plentyn neu'r oedolyn yn cael ei ryddhau o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes llawer o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen i blant a rhai oedolion gael eu hebrwng neu eu cefnogi gan riant, aelod o'r teulu neu ofalwr, ac felly gallai'r term Heb Fynychu gysgodi materion sy'n peri pryder.

## Cyflwyniad

Roedd fersiynau blaenorol o ganllawiau "Heb Fynychu" yn bennaf yn ddogfennau Bwrdd Iechyd wedi'i hanelu at les a diogelu plant. Mae'r set hon o egwyddorion wedi ehangu'r cylch gwaith hwn i ystyried gwasanaethau sy'n sicrhau lles, datblygiad neu reoli gofal plant neu oedolion.

At ddibenion y ddogfen hon mae "plant" i gyd yn bobl ifanc o dan 18 oed. Pan ystyriwn "oedolion" mae'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at oedolion mewn perygl ac oedolion a allai fod ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio defnyddio'r cysyniad 'heb hebrwng' lle gall oedolyn fod yn dibynnu ar ofalwr, aelod o'r teulu neu ffrind i ddod ag ef i apwyntiadau oherwydd ei anghenion gofal a chymorth. Dylid ystyried hyn yn y cyd-destun 'heb hebrwng' yn hytrach na 'heb fynychu'.

Pan nad yw plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl neu oedolion sydd angen gofal a chymorth yn cael eu hebrwng i apwyntiadau, mae nifer o faterion sy'n heriol i wasanaethau sydd â'r potensial i arwain at anghenion heb eu bodloni i'r plant, pobl ifanc, neu oedolion. Mae'r set hon o egwyddorion yn penderfynu beth ddylai ymarferwyr ei wneud os nad yw plant, pobl ifanc, neu oedolion sydd angen cymorth yn cael eu hebrwng i apwyntiadau. Ymhellach, mae angen hyrwyddo gwell ymgysylltiad rhwng plant, pobl ifanc ac oedolion a gwasanaethau trwy annog safon gyffredin ar

draws pob darparwr.

Mae llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, wedi nodi y gall peidio â chael eu hebrwng i apwyntiadau meddygol fod yn rhagflaenydd i gamdriniaeth ddifrifol a gall achosi risg i oedolion a phlant.

## Nodau

- Mae'r set hon o egwyddorion yn tynnu sylw at fregusrwydd posibl plant, pobl ifanc neu oedolion nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau ac yn gwneud argymhellion fel bod lles yr unigolyn bob amser yn brif ffocws i ymarferwyr.
- Nod y set hon o egwyddorion yw sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio adeiladu perthynas therapiwtig gyda phlant, pobl ifanc, oedolion, neu rieni a gofalwyr a allai ymddangos i fod yn anodd ymgysylltu â nhw, er mwyn sicrhau bod asiantaethau'n gallu cynnig gwasanaeth priodol i unigolion a theuluoedd, oedolion a phlant nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau.
- Mae'r set hon o egwyddorion yn amlinellu'r dull i'w gymryd ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, gan gynnwys pwysigrwydd trafodaeth ac adolygiad amlddisgyblaethol, dogfennu penderfyniadau a digwyddiadau, a'r broses o asesu risg o'r holl amgylchiadau unigol i lywio cynllun i ymgysylltu â'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn.

Mae'r set hon o egwyddorion wedi'u datblygu i ddangos i bob ymarferydd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg bwysigrwydd y prosesau i'w dilyn pan:

- Y gwrthodir gwasanaethau i blant
- Nad yw plant neu bobl ifanc yn cael eu hebrwng dro ar ôl tro i'w hapwyntiadau.
- Nad yw plant a phobl ifanc ar gael dro ar ôl tro ar gyfer ymweliadau cartref sydd wedi'u trefnu.
- Nad yw oedolion mewn perygl yn cael eu hebrwng dro ar ôl tro i apwyntiadau.
- Nad yw oedolion y mae angen cymorth arnynt i fynychu apwyntiadau yn cael eu hebrwng i apwyntiadau.

I gael canllawiau penodol ar apwyntiadau iechyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi *Canllaw* Gofal Sylfaenol: 'Plant a phobl ifanc na chânt eu hebrwng i apwyntiadau gofal iechyd'. Mae'r canllaw'n nodi y gall methu apwyntiadau fod yn ddangosydd yn achos rhai plant eu bod yn wynebu risg uwch o gam-drin neu esgeuluso. Dylid ystyried hyn hefyd ar gyfer oedolion.

## Diffiniad

Diffinnir ‘Heb Hebrwng’ fel unrhyw apwyntiad a drefnir i weld plentyn, person ifanc, neu oedolyn nad yw’r unigolyn yn cael ei hebrwng iddo gan ofalwr cyfrifol, heb hysbysu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gyswllt a drefnir ymlaen llaw â phlentyn, person ifanc neu oedolyn, boed yn y cartref, mewn clinig cymunedol, mewn adeilad tîm cymunedol, mewn lleoliad ysbyty, neu unrhyw fath arall o gyswllt a drefnir sy’n ymwneud â darparu'r gwasanaeth hwn.

## Diogelu

O ran diogelu, fel bob amser, os oes gan ymarferydd bryderon brys am ddiogelwch unrhyw blentyn, person ifanc, neu oedolyn, dylai ffonio 999 a gofyn am ymyrraeth gan wasanaeth brys.

## Atal

Gall plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cael mynediad at wasanaethau wynebu pwysau a gofynion lluosog sy'n gwneud mynychu apwyntiadau yn fwy heriol. Mae hyn hefyd yn wir am eu gofalwyr neu rieni. Gall hyn gynnwys problemau cyfathrebu fel llythrennedd, iaith ac anableddau dysgu, materion sy'n ymwneud â'u symudedd ac unrhyw lefel o dlodi, gwahaniaethu ac allgáu cymdeithasol.

Gall ystyried y potensial am heriau, bod yn hysbys neu anhysbys, i'r plentyn, person ifanc, neu oedolyn, leihau nifer yr apwyntiadau a gollir ynddo’i hun, felly dylai asiantaethau sicrhau bod gwasanaethau’n hygyrch, yn berthnasol, yn hawdd i'w defnyddio a, lle bo hynny'n bosibl, yn hyblyg, gan hefyd gydnabod iaith ac eglurder llythyrau a dogfennaeth.

## Cyfrifoldeb Proffesiynol

Os oes gan unrhyw ymarferydd unrhyw bryderon ynglŷn â cholli apwyntiadau, dylai ystyried trafod ei bryderon gyda'i Berson/Arweinydd Diogelu Dynodedig neu Reolwr Llinell.

## Ffactorau sy'n cyfrannu at golli apwyntiadau

- Gall gwelliant mewn symptomau arwain at lai o gymhelliant i fynychu.
- Yr amser aros ar gyfer yr apwyntiad.
- Lefelau amrywiol o ymgysylltiad neu foddhad â'r gwasanaeth.
- Yr amser aros rhwng apwyntiadau y cytunir arnynt.
- Mae gan deulu neu unigolion nifer o apwyntiadau neu ymyriadau sy'n arwain at ddryswch.
- Mae gan blentyn, person ifanc, neu oedolyn anhawster neu angen dysgu, neu broblemau galluedd meddyliol.
- Nid yw plentyn, person ifanc neu oedolyn yn cael ei gefnogi i fynychu neu mae’n cael ei atal rhag mynychu gan unigolyn arall sy'n chwarae rhan sylweddol yn ei ofal.

## Datgysylltu

Gall datgysylltu fod yn rhannol, ysbeidiol, neu barhaus ei natur. Gall fod yn arwydd o gynnydd mewn straen o fewn teulu a cham-drin neu esgeulustod posibl yn erbyn babanod, plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl. Felly, mae angen cydnabod arwyddion cynnar o ddatgysylltu fel bod y risg bosibl yn cael ei hasesu. Cydnabyddir yn eang y gall y sefyllfa arwain at ganlyniadau difrifol posibl i rai plant, pobl ifanc, ac oedolion mewn perygl. Mae angen i ymarferwyr ddadansoddi ac asesu'r risg mewn sefyllfaoedd lle ceir datgysylltu (DoH 2010).

## Dangosyddion a Phryderon Posibl

Mae'r rhestr ganlynol yn tynnu sylw at rai dangosyddion neu bryderon posibl a allai fod yn batrymau ymddygiad y dylid eu trafod gyda'ch rheolwr llinell a/neu'r tîm diogelu. Os amheuir bod niwed wedi'i achosi i'r plentyn, person ifanc, neu oedolyn mewn perygl oherwydd apwyntiad a gollwyd, dylid ystyried adroddiad diogelu, waeth faint o apwyntiadau sydd wedi'u colli. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

- Ni chafodd plentyn, person ifanc neu oedolyn unigol ei hebrwng i apwyntiad dilynol.
- Nid yw plentyn, person ifanc neu oedolyn yn cael ei gefnogi i fynychu neu mae'n cael ei atal rhag mynychu gan unigolyn arall sy'n chwarae rhan sylweddol yn ei ofal.
- Apwyntiadau cymunedol lle nad yw'r ymarferydd yn gallu cysylltu ag unigolyn neu gael mynediad i'w fan preswyl.
- Apwyntiadau'n cael eu canslo'n gyson gan bobl ymlaen llaw.
- Teimlad bod plentyn, person ifanc, oedolyn, rhieni, neu ofalwyr yn osgoi cyswllt ymarferydd.
- Plentyn, person ifanc neu oedolyn y gallai fod ganddo gyfrifoldebau gofalu a allai gael eu peryglu drwy golli apwyntiadau yn methu â mynychu apwyntiadau.
- Ymddygiad gelyniaethus neu ystrywgar tuag at ymarferwyr.
- Mae'r ymgysylltiad cychwynnol â gwasanaethau yn lleihau.
- Cydymffurfiaeth Guddiedig – mae unigolyn, rhiant neu ofalwr yn rhoi'r argraff o ymgysylltu ond nid yw'n ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaeth a/neu mae'n canslo apwyntiadau ar y funud olaf. “Nid yw cyfranogiad yr un peth â chydweithrediad” (D. Elliman 2010).

## Pan fydd plant "Heb eu Hebrwng” / Ymweliadau Cartref Dim Mynediad

**Mae'r canlynol yn ofynnol wrth weithio gyda phlant nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau neu lle na chaniateir mynediad ar gyfer ymweliadau cartref ymarferwyr:**

- Dogfennwch hyn yn adran cronoleg y Cofnod Plentyn a Theulu neu system gofnodi'r sefydliad.
- Cysylltwch â'r teulu i drafod y rheswm dros beidio mynychu. Cofnodwch yn y Cofnod Plentyn a Theulu/system gofnodi'r sefydliad unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r apwyntiad a gollwyd h.y. ymweliadau cartref neu ailapwyntiadau.

- Dylid gwneud ymdrechion i gysylltu â'r teulu i gadarnhau manylion cyswllt cyfredol, pam y collwyd yr apwyntiad ac aildrefnu apwyntiad os oes angen.  Byddwch yn ymwybodol o lythrennedd rhieni a gofalwyr, ac a yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
- Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chamau i'w cymryd, neu unrhyw anawsterau eraill, gofynnwch am gyngor gan y Person/Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer eich sefydliad.  Ar gyfer y rhan fwyaf o apwyntiadau a gollir ni fydd angen cysylltu â'r Person/Arweinydd Diogelu Dynodedig na'i gopïo i lythyrau ac ati.

Rhaid i ymarferydd lunio barn wedi'i llywio gan asesiad yn seiliedig ar ddatblygiad, lles a sefyllfa deuluol bresennol y plentyn neu'r person ifanc er mwyn **pennu a oes Dyletswydd i Adrodd i Ofal Cymdeithasol Plant.**  Dylid gwneud adroddiadau cyn gynted â phosibl yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd ac yna eu trafod dros y ffôn i egluro'r pryderon.

Tra'n cydnabod y bydd gan y rhan fwyaf o deuluoedd resymau da dros beidio â mynychu mae'n bwysig cydnabod;

*'Gall datgysylltu fod yn rhannol, ysbeidiol, neu barhaus ei natur. Gall fod yn arwydd o gynnydd mewn straen o fewn teulu a cham-drin neu esgeulustod posibl yn erbyn babanod, plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl. Felly, mae angen cydnabod arwyddion cynnar o ddatgysylltu fel bod y risg bosibl yn cael ei hasesu.  Cydnabyddir yn eang y gall y sefyllfa arwain at ganlyniadau difrifol posibl i rai plant ac oedolion mewn perygl. Mae angen i ymarferwyr ddadansoddi ac asesu'r risg mewn sefyllfaoedd lle ceir datgysylltu' (DoH 2010).*

Mae'r animeiddiad hwn yn nodyn atgoffa pwerus nad yw plant neu bobl ifanc yn mynd â nhw eu hunain i apwyntiadau; mae'n rhaid iddynt gael eu hebrwng gan rieni neu ofalwyr. Mae'r animeiddiad felly yn annog ymarferwyr i fyfyrio ar yr effaith y mae apwyntiadau a gollir yn ei chael ar les plentyn.
https://www.youtube.com/watch?v=dAdNL6d4lpk *Gyda diolch i Gyngor Dinas Nottingham a gomisiynodd yr animeiddiad byr hwn.*

## Plant sy'n Hysbys i Wasanaethau Plant Statudol neu a Ystyrir yn Agored i Niwed

Mewn amgylchiadau lle mae plant yn agored i Wasanaethau Plant fel plentyn y mae ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), plant sy'n destun cynllunio Gofal a Chymorth neu blant a ystyrir yn agored i niwed h.y. plant ag anghenion iechyd neu anabledd nad ydynt yn hysbys i Wasanaethau Plant, rhaid mabwysiadu dull mwy cadarn.   Mewn sefyllfaoedd lle nad yw plentyn yn cael ei hebrwng i apwyntiadau, na all yr ymarferydd gael mynediad, neu mae'r teulu'n gwrthod gwasanaeth, bydd yr ymarferydd yn cysylltu â'r holl ymarferwyr/asiantaethau perthnasol ac yn dogfennu hyn yn y Cofnod Plentyn a Theulu/system gofnodi'r sefydliad.

Dylai ymarferwyr sy'n rhan o Gynllun Gofal a Chymorth plentyn neu Grŵp Craidd y Cynllun Diogelu sicrhau bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu'n ffurfiol mewn cyfarfodydd adolygu a fydd yn cynnwys y rhiant ac weithiau'r plentyn ei hun.

**Ni ddylid rhyddhau plant y gwyddys eu bod yn weithredol gysylltiedig â Gwasanaethau Plant statudol o unrhyw wasanaeth heb ymgynghori â'u Gweithiwr Cymdeithasol.**

## Pan fydd Oedolyn "Heb ei Hebrwng" / Ymweliadau Cartref Dim Mynediad

Fel yr amlinellwyd ar y dechrau, pan ystyriwn "oedolion" mae'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at oedolion mewn perygl ac oedolion a allai fod ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio defnyddio'r cysyniad 'heb hebrwng' lle gall oedolyn fod yn dibynnu ar ofalwr, aelod o'r teulu neu ffrind i ddod ag ef i apwyntiadau oherwydd ei anghenion gofal a chymorth. Dylid ystyried hyn yn y cyd-destun 'heb hebrwng' yn hytrach na 'heb fynychu'.

**Mae'r canlynol yn ofynnol wrth weithio gydag oedolion mewn perygl ac oedolion y gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau neu lle na chaniateir mynediad ar gyfer ymweliadau cartref ymarferwyr:**

- Dylai ymarferwyr gofnodi Heb Hebrwng mewn Nodiadau Achos neu systemau cofnodi sefydliadol.
- O fewn y cofnod hwn dylai fod cofnod o unrhyw fregusrwydd hysbys neu a oedd yr unigolyn yn dibynnu ar ofalwr neu aelod o'r teulu i fynychu.
- Dylid ystyried galluedd meddyliol y person sydd wedi colli apwyntiad (os yw'n 16 oed neu'n hŷn). Cyfeiriwch at y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a Deddf Galluedd Meddyliol (2005) i gael rhagor o wybodaeth.
- Ystyriwch hanes presenoldeb y person neu, os collwyd apwyntiad cyntaf, ystyriwch drafodaeth gyda'r atgyfeiriwr i nodi unrhyw risg neu bryder posibl.
- Ceisiwch gysylltu â'r person neu'r gofalwr i wirio a oedd unrhyw reswm dros beidio â mynychu.
- Os nad yw oedolyn, yn enwedig rhai sydd â bregusrwydd ychwanegol, h.y. rhai ag anableddau dysgu, dementia, pryderon iechyd meddwl neu fregusrwydd, yn cadw at apwyntiadau neu'n cael ei weld yn y cartref, dylai'r gweithiwr proffesiynol gynnal asesiad risg yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth o'r pryderon iechyd a chymdeithasol.
- Os nodir risgiau neu bryderon mewn perthynas â diffyg presenoldeb yr oedolyn, dylai'r ymarferydd ofyn am gyngor gan Arweinydd Diogelu'r sefydliad neu Dîm Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol.
- Os yw'r risgiau a nodwyd yn arwyddocaol, dylid cyflwyno Ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Tîm Diogelu Oedolion. Os ystyrir bod pryderon yn frys, dylid gwneud hyn dros y ffôn i ddechrau a chysylltu eto o fewn 24 awr gyda'r Dyletswydd i Adrodd.

## Diogelu Pobl Feichiog nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau

Mae'n bwysig bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl feichiog yn ymwybodol o'r angen i'w diogelu nhw a'u plentyn yn y groth os na fyddant yn cael eu hebrwng i apwyntiadau sy'n ymwneud â beichiogrwydd. Gall yr apwyntiadau hyn gynnwys apwyntiadau mamolaeth/cynenedigol, meddyg teulu, iechyd rhywiol ac erthyliad. Dylid ystyried, os na fydd person yn cael ei hebrwng i apwyntiadau o'r fath, ei fod yn parhau â’r beichiogrwydd. Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r person yn ceisio cuddio beichiogrwydd a fyddai'n risg uchel i'r person beichiog, a'r plentyn yn y groth.

- Gall goblygiadau beichiogrwydd, lle nad yw apwyntiadau cynenedigol yn cael eu bodloni, fod yn ddifrifol. Gallai’r rhain gynnwys;
    - Esgeulustod ffetws
    - Annormaleddau ffetws heb eu diagnosio
    - Problemau iechyd meddwl gan gynnwys iselder ôl-enedigol
    - Cyflyrau meddygol fel diabetes beichiogrwydd
    - Marwolaeth y fam a'r ffetws.

  Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysol.

- Mae llawer o resymau pam na fydd pobl feichiog yn mynychu neu’n cael eu hebrwng i apwyntiadau. Gallai’r rhain gynnwys;
    - Natur ddi-hid tuag at y beichiogrwydd
    - Penderfyniad i beidio â pharhau â’r beichiogrwydd
    - Ffyrdd o fyw anhrefnus, yn enwedig hunan-esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, plant blaenorol wedi'u cymryd o’u gofal
    - Cam-drin domestig, yn enwedig ymddygiadau rheolgar ystrywgar
    - Methu â chyrraedd apwyntiad (oherwydd cyllid, pellter, gofal plant, gwaith, materion iechyd)
    - Ofn beichiogrwydd/ymarferwyr
      Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysol.

- Pan fo ymarferwyr yn amau neu’n gwybod am feichiogrwydd, rhaid defnyddio dull amlasiantaethol i rannu gwybodaeth rhwng Iechyd, yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu a Darparwyr Trydydd Sector. Dylid cysylltu â phobl feichiog lle nad yw apwyntiadau wedi cael eu mynychu a rhoi cyfle iddynt rannu unrhyw anawsterau maen nhw'n eu cael a, lle ceir pryder bod diffyg presenoldeb yn barhaus ac yn destun pryder, rhaid anfon DiA a chynnal trafodaeth amlasiantaethol.

- Mae'n bwysig nodi na ddylai cyfrinachedd fod yn rhwystr i rannu pryderon ynghylch beichiogrwydd, yn enwedig pan mae’n ymwneud ag iechyd rhywiol. Os credir bod person yn parhau â beichiogrwydd ac nad yw wedi mynychu apwyntiadau, mae diogelu'r plentyn yn y groth yn hollbwysig a rhaid rhannu gwybodaeth.

## I Gloi

Bydd newid yr iaith o Heb Fynychu i Heb Hebrwng i blant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl neu oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt yn arwain at ymyriadau cadarnhaol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr unigolion hyn sy'n mynd y tu hwnt i'r apwyntiad

a gollwyd gan symud tuag at ymarfer sy’n canolbwyntio ar y person a ddisgrifir mewn adolygiadau allweddol diweddar.

## Adnoddau

Rhestr Wirio Asesu Risg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | Beth yw cyflwr iechyd, diagnosis neu fregusrwydd y person?<br><br>Ystyriwch y canlyniadau o golli’r apwyntiad. | | |
| **2** | Pam cafodd y person ei atgyfeirio at y gwasanaeth?<br><br>Adolygwch y manylion atgyfeirio. A oedd hyn gyda chaniatâd y person? | Oedd / Nac oedd | |
| **3** | A oes hanes o golli ymweliadau / presenoldeb? Cofnodwch nifer a thros ba gyfnod. | Oes / Nac oes | |
| **4** | Os ateboch 'Oedd' i C2, a nodwyd unrhyw berygl neu risg i’r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn pan na wnaeth ymateb? | Do / Naddo | |
| **5** | A oes unrhyw bryderon eraill wedi'u codi gan asiantaethau eraill? | Oes / Nac oes | |
| **6** | Pa mor hir yw hi ers i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn gael ei weld ddiwethaf, o dan ba amgylchiadau a chan bwy? | | |
| **7** | A oes cyfnod o salwch / presenoldeb yn yr ysbyty / digwyddiad bywyd wedi digwydd yn ddiweddar? | Oes / Nac oes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | A yw'r person yn dibynnu ar unigolyn arall i'w helpu i fynychu ei apwyntiadau? | | |
| **8** | I oedolion - a oes hanes o syrthio / crwydro / hunan-esgeulustod? | Oes / Nac oes | |
| **9** | A yw'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn yn symudol y tu allan i'w gartref? | Ydy / Nac ydy | |
| **10** | Yn eich barn chi, a allai'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn fod mewn perygl o niwed uniongyrchol os na chaiff ei leoli? Os felly, pam? | Gallai / Na | |
| **11** | A oes unrhyw bryderon diogelu presennol? | Oes / Nac oes | |